YDYCH CHI AR Y FFORDD I FYWYD TRAGWYDDOL?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch fyfyrwyr sy'n astudio'r Beibl, a hefyd rhai sydd â diddordeb, ddeall sut a pham dylen nhw gynyddu'n ysbrydol. Tynnwch sylw i'r nifer o ffyrdd y gallan nhw gael help, ac anogwch nhw i weithredu cyn gynted â phosibl

BETH YW'R "FFORDD SY'N ARWAIN I FYWYD"? (5 mun.)

Mae Jehofa yn rhoi'r gobaith i bawb gael bywyd tragwyddol (Rhu 6:23)

Mae miliynau yn edrych ymlaen at fwynhau bywyd tragwyddol ar Baradwys ddaear, fel yr oedd Duw yn bwriadu'n wreiddiol

Mae meddiannu bywyd yn gofyn am ddilyn y llwybr sy'n wahanol i'r mwyafrif **[Darllenwch Mathew 7:13, 14]** (*w09*-E 8/1 3-4)

Mae'r Beibl yn datgelu gofynion Duw am feddiannu bywyd (In 17:3; 1In 2:3; 5:3)

Mae gofynion Duw yn rhesymol, maen nhw'n adlewyrchu ei gariad ac yn gymorth inni

SUT I DDECHRAU CERDDED Y "FFORDD SY'N ARWAIN I FYWYD" (13 mun.)

Dechreuwch drwy adeiladu ffydd sydd wedi ei sylfaenu ar y Beibl

Mae angen bod yn gwbl hyderus yn y Beibl os ydyn ni am ddilyn llwybr sy'n wahanol i'r un gyffredin

Os nad ydych chi'n gwbl argyhoeddedig mai'r Beibl yw Gair Duw, edrychwch ar y dystiolaeth (*g*-E 11/07 5-9)

Defnyddiwch y Beibl i archwilio'ch daliadau yn ofalus

Roedd Iesu'n pwysleisio'r angen i sylfaenu'ch daliadau ar y gwirionedd **[Darllenwch Ioan 4:23, 24]**

Fel gwnaeth yr Apostol Paul, byddwch yn fodlon i newid eich daliadau ar ôl gweld y dystiolaeth (Act 26:9-20)

Efallai fydden ni'n sylwi'r angen i wneud newidiadau yn ein bywydau a'n personoliaeth er mwyn plesio Duw

Wrth inni agosáu at Jehofa, a thyfu yn ein ffydd, fe fydd yn bosibl inni wneud y fath newidiadau **[Darllenwch Iago 4:8]**

Rhoi heibio wnawn arferion drwg sy'n aflan yng ngolwg Jehofa (Ga 5:19-21; Eff 4:17-19)

Wrth efelychu Iesu a Jehofa, rydyn ni'n gwisgo'r "natur ddynol newydd" (Eff 4:20-29; 5:1, 2)

Mae nifer wedi llwyddo i wneud newidiadau enfawr (*w15*-E 5/1 10-11; *w14*-E 7/1 8-9)

Wrth inni dyfu yn ein dealltwriaeth a'n ffydd, mae angen inni helpu gwneud disgyblion fel y gorchmynnodd Iesu (Mth 28:19, 20)

Er mwyn ddechrau cerdded y "ffordd sy'n arwain i fywyd," mae rhaid inni gysegru ein hunain i wneud ewyllys Jehofa a chael ein bedyddio (Mth 16:24; 1Pe 3:21)

NID YW'R "FFORDD SY'N ARWAIN I FYWYD" YN RHY ANODD (7 mun.)

Mae ein sefyllfa'n debyg i'r Israeliaid, cyn iddyn nhw fynd i Wlad yr Addewid **[Darllenwch Deuteronomium 30:11]** (*w09*-E 11/1 31)

Efallai bod y "ffordd sy'n arwain i fywyd" yn edrych yn gyfyngedig, ond mewn gwirionedd, y mae'n dod â rhyddid a hapusrwydd (*w06*-E 10/1 8-10)

Mae Jehofa yn rhoi'r cymorth rydyn ni ei angen i gychwyn ar y "ffordd sy'n arwain i fywyd," ac i aros arni

Mae Jehofa yn ein gwahodd ni i weddïo iddo, ac mae'n addo ein helpu mewn adegau o angen (Sal 145:18; Esei 41:13)

Er mwyn ein cryfhau â'n harwain, mae Jehofa'n rhoi ei ysbryd glân inni (Luc 11:10-13; *w10*-E 4/15 9 par. 11; 11 par. 15)

Yn ein cyfarfodydd, cawn gymorth a chwmni sy'n llesol (Heb 10:24, 25)

PARHEWCH I WNEUD CYNNYDD YSBRYDOL (5 mun.)

Amser ac amynedd sydd ei hangen er mwyn newid ein bywydau i gyrraedd gofynion Duw, ond mae'n fater o frys

Mae'r bendithion sy'n dod o wasanaethu Jehofa yn werth yr ymdrech

Peidiwch â digalonni wrth wynebu anawsterau (Mc 4:26-29 ; *w14*-E 12/15 12-13 par. 4-8)

Peidiwch â chael eich twyllo gan y celwyddau am hapusrwydd y mae'r byd a'i reolwr yn eu hybu (1In 2:17; 5:19)

Nid diddiwedd yw "dyddiau diwethaf" y drefn hon (2Ti 3:1; 2Pe 3:4, 9, 10)

Nawr yw'r amser i dderbyn gwahoddiad Duw i'r "ffordd sy'n arwain i fywyd"

[Cadwch yn agos i'r amlinelliad, a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dilyn amseriad bob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob adnod. Gwelwch y llyfr *Ministry School,* tt. 52-55, 166-169]